S4C

27.10.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Newidiadau mawr yng Ngwersyll yr Urdd yn yr 80au

Dros yr wythnosau diwethaf mae cyfres arbennig ar S4C - **Nôl i'r Gwersyll** - wedi mynd â gwylwyr ar daith nôl mewn amser i Wersyll yr Urdd Llangrannog.

Gan ddechrau yn y 50au a symud ymlaen at yr 80au, mae pob pennod yn rhoi cyfle i griw o gyn-wersyllwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau gamu nôl i brofi penwythnos yn y gwersyll i hel atgofion a chreu rhai newydd.

Ac ym mhob pennod yn y gyfres, sy'n rhan o ddathliadau canmlwyddiant yr Urdd, mae'r gwersyllwyr yn cael profiad gwyliau o'r gorffennol gyda'r bwyd, y dillad, y gweithgareddau a'r adloniant i gyd yn driw i'r cyfnod.

I ofalu ac i arwain y gwersyllwyr, wrth gwrs, mae'r swogs - ac fe fydd sawl wyneb cyfarwydd yn eu plith. Ieuan Rhys, Martyn Geraint a Keith 'Bach' Davies sy'n swogio yn y rhaglen o'r 80au ar nos Sul 6 Tachwedd.

Meddai Martyn: "Oni'n gweithio yn y siop; oni hefyd yn plico tato a'u paratoi ar gyfer y sglodion - atgofion melys iawn. Mae'n braf bod nôl yma yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog – o'dd e fel dod getre."

Roedd Keith yn swog ar ddechrau'r 80au. "Mae dal atgofion melys iawn 'da fi. A'r ffrinidie nes i bryd hynny, fi dal yn ffrindie gyda nhw."

Bu datblygiadau mawr yn y gwersyll yn yr 80au ac mae'n ta ta ar y pebyll a'r cabannau wrth i floc cysgu newydd a champfa cael eu hadeiladu. Dyma'r degawd cyntaf i'r bechgyn gael cysgu mewn dorm!

Ar ddiwedd yr 80au cyflwynwyd gweithgaredd newydd i'r gwersyll - un sydd wedi bod yn ffefryn i nifer ers hynny sef sgïo!

Yn ystod y rhaglen hon cawn weld y gwersyllwyr yn mwynhau ar gwrs rhaffau ac yn paratoi ar gyfer noson yn y disco - ac yn ymuno yn hwyl y disgo bydd gwesteion go arbennig, sef criw o ffoaduriaid o Wcráin sydd yn aros yn y gwersyll.

Meddai Keith: "Ar hyd y blynyddoedd mae gwaith teyrngarol yr Urdd a'r brawdgarwch maen nhw wedi dangos ar draws y byd a hybu heddwch wedi bod yn anhygoel ac mae hyn yn parhau wrth i ni groesawu ffrindiau o Wcráin yma gyda ni."

Ond dyw rhai pethau heb newid dros y blynyddoedd gyda phawb yn mynd am dro o'r gwersyll i'r traeth ac yn rasio mewn i'r môr, gwario arian yn y siop a thacluso eu hystafelloedd.

Meddai Ieuan ar ddiwedd ei benwythnos o swogio: “Wi jyst yn meddwl pa mor lwcus yw plant Cymru i gael hwn. Mae cymaint wedi newid ers i’r adeg oni’n swogo fan hyn ac mae’n anhygoel yma.”

Fe wnaeth Aled Webb Price a’i deulu gymryd rhan yn rhaglen yr 80au - felly beth oedd ei ymateb ef i’r profiad? Meddai Aled: “Fel arfer da ni’n nagio’r plant - yn yr 80au oni ddim yn gallu aros mewn trwy’r amser - oni mas trwy’r amser. Ac maen nhw wastad yn dweud ‘wel - beth oedd e fel yn yr 80au?’ - a nawr maen nhw wedi profi hynna eu hunain. Does dim unrhyw sôn wedi bod am gadjets neu dechnoleg o gwbl - mae e wedi bod yn hyfryd.”

Gallwch ddal i fyny gyda holl anturiaethau’r gwersyllwyr a’r swogs trwy wylio'r gyfres gyfan sydd nawr ar gael ar S4C Clic a BBC iPlayer.

**Nôl i’r Gwersyll: Yr 80au**
**Nos Sul 6 Tachwedd 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

27.10.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Llangrannog Urdd Camp saw big changes in the 80s

Over the last few weeks, a special series – **Nôl i'r Gwersyll** (Back to the Camp) - has taken viewers on a trip back in time to the Urdd Camp in Llangrannog.

Beginning in the 50s and moving through the decades to the 80s, each episode gives a group of former Urdd campers, their friends and families the chance to experience a weekend at the camp, to relive old memories and create new ones.

And in each episode of the series, which is part of the Urdd's centenary celebrations, campers have the opportunity to experience holidays from the past with food, clothes, activities and entertainment from the era.

To look after and lead the campers are, of course, the swogs – and there will be several familiar faces among them. Ieuan Rhys, Martyn Geraint and Keith 'Bach' Davies are swogging in the programme from the 80s on Sunday, 6 November.

Martyn said: "I worked in the shop; but I would also peel potatoes to make chips – great memories! It's nice being back at Llangrannog Urdd Camp – it's like coming home."

Keith was a swog at the beginning of the 1980s. "I've still got some really wonderful memories. And the friends I made then – I'm still friends with them."

There were some major developments in the camp in the 1980s and it was farewell to the tents and cabins as a new accommodation block and gym was built.

At the end of the 80s a new activity was introduced to the camp – one that has been a favourite to many – skiing!

During this programme we can see the campers enjoying themselves on a rope course and preparing for a night at the disco. And joining in the fun at the disco are some special guests – a group of refugees from Ukraine.

Keith said: "Throughout the years, the unstinting work of the Urdd and the brotherhood they have shown all over the world promoting peace has been incredible. And this continues as we welcome our friends from Ukraine here with us."

But some things haven't changed over the years with everybody going for a walk from the camp down to the beach and racing into the sea, spending money in the shop and tidying their rooms.

At the end of his weekend of being a swog, Ieuan said: "I just think how lucky the children of Wales are to have this. So much has changed since the time I was a swog. It is totally amazing here."

Aled Webb Price and his family took part in the 1980s episode – so what was his reaction to the experience?

Aled said: "We usually nag the children – we weren't allowed to stay indoors in the 80s – we were out the whole time. And they're always asking 'well, what was it like in the 80s' – and now they've experienced it for themselves. They haven't missed their gadgets or technology at all – it's been lovely."

Catch up with all the adventures of the campers and the swogs by watching the whole series which is now available on S4C Clic and BBC iPlayer.

**Nôl i'r Gwersyll: Yr 80au**
**Sunday 6 November 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**